

Gors Maen Llwyd

Un o rwydwaith cenedlaethol gwarchodfeydd natur yr Ymddiriedolaethau Natur • One of a nationwide network of Wildlife Trust nature reserves



Croeso i Gors Maen Llwyd Welcome to Gors Maen Llwyd, the 'Bog of the Grey Stone'

Dyma warchodfa natur y gweundir sy'n eiddo Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru ac sy'n cael ei rheoli ganddynt ers 1988. Mae'n rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Mynydd Hiraethog.

Mae'r safle'n bwysig oherwydd y rhostiroedd mynydd a'r gorgorsydd sy'n gynefin i nifer o blanhigion ac anifeiliaid prin, mae'r hesg, yr infertebratau prin a'r rugiar ddu, sydd mewn perygl, o ddiddordeb arbennig.

Tirwedd Byw

Bu pobl a natur yn ffurfio'r dirwedd weundirol hon am filoedd o flynyddoedd.

Saif y Maen Llwyd yng nghornel Gogledd-Ddwyrain y warchodfa. Rhewlifoedd a gludodd y maen i'r fan hon yn ystod yr oes Iâ ddiweddaraf, gan ei adael ar ôl wedi i'r rhew gilio. Cadwch lygad yn agored am dwmpathau claddu Oes yr Efydd ac adfeilion bwthyn bugail o'r enw Pant-y-Maen, yn 1871 y bu rhywun yn byw yma ddiwethaf.

Y rhesi a'r stribedi afreolaidd ar ochrau'r brynau yw lle torrwyd neu losgwyd y grug i hyrwyddo tyfiant newydd. Yn y gorrffennol, roedd y rhostiroedd yn cael eu trin fel hyn ar gyfer saethu grugieir ac er mwyn i anifeiliaid gael pori. Mae'r dulliau rheoli hynny yn dal i greu amodau perffaith i'r planhigion a'r anifeiliaid brodorol sydd wedi datblygu i fyw yma.

Adeiladwyd Llyn Brenig yn 1976 ac, ynghyd â Llyn Tegid a Llyn Celyn, mae'n cynorthwyo i gynnal y llif o'r Afon Ddyfrdwy lle mae dŵr yfed yn cael ei dynnu o'r afon ger Caer.



Rugiar Ddu yn paru gyda'r wawr
Black Grouse lekking at dawn

This is an important moorland nature reserve owned and managed by the North Wales Wildlife Trust since 1988 and part of the Mynydd Hiraethog Site of Special Scientific Interest.

The site is important because of its upland heathland and blanket bogs which are home to many rare plants and animals. Particularly significant are many rare sedges, invertebrates and the threatened black grouse.

A living landscape

Man and nature have shaped this moorland landscape for thousands of years.

The 'Maen Llwyd' stone is in the North East corner of the reserve. It is a boulder brought here by glaciers during the last ice age and left behind when the ice retreated. Look out also for Bronze Age burial mounds or 'Tumuli' and a ruined shepherd's cottage, 'Pant-y-Maen', last inhabited in 1871.

The stripes and irregular patches on the hillsides are where the heather has been cut or burnt to encourage fresh new growth. The moors were historically managed this way for grouse shooting and livestock grazing. These methods continue to create perfect conditions for the native plants and animals that have evolved to live here.

Llyn Brenig Reservoir was constructed in 1976 and, along with Llyn Tegid (Bala Lake) and Llyn Celyn, it helps to maintain the flow of the River Dee from which drinking water is extracted near Chester.



Mae llawer o adar y rhostir yn nythu ar y ddaear ac felly mae'n hawdd tarfu arny'n nhw yn ystod y tymor nythu, felly **o Ebrill i Fedi cofiwch gadw at y llwybrau sydd ag arwyddion arny'n nhw a chadw'r ci o dan reolaeth. Gall unrhyw fath o aflonyddu fod yn fygythiad mawr i gywion y rugiar ddu.**

Many of the moorland birds nest on the ground and are therefore easily disturbed during the nesting season, so **from April through to September please keep to the way-marked paths and keep dogs under control. Any disturbance could pose a real threat to a young brood of black grouse.**

Gwyfn Ymerawdur
Emperor moth



Fioled y Mynydd
Mountain Pansy



Yng Nghors Maen Llwyd ceir cyfle i weld enghreifftiau o fywyd gwyllt ysblennydd a phrin drwy'r flwyddyn.

Gwelir ysgyfarnogod yn paffio yma ar ddechrau mis Mawrth.

Gwrandewch am y grugieir du yn ymgynnull ar doriad y wawr o ddiwedd Mawrth tan ddechrau Mehefin.

Edrychwch am fioled y mynydd ar y twmpath yn ymyl yr Afon Fechan, am lafn y bladur a'i liw melyn llachar, am wylthys sy'n dal pryfed, ac am blu'r gweunydd sy'n ffynnu mewn mannau corsiog.

Ewch i'r guddfan adar yn ymyl Maes Parcio'r dwyrain yn y **Gwanwyn a'r Hydref** i weld adar y dŵr ac ieir y dŵr yn bwydo ar lan y llyn.

Mae adar y rhostir- fel yr ehedydd, clegar y cerrig, tinwen y garn, crec yr eithin a chorhedydd y waun - yn nythu yma, ac mae gwennol y glennydd yn nythu ar y clogwyni caregog wrth y gronfa ddŵr ac yn hela'i bwyd dros y llyn yn ystod y **Gwanwyn a'r Haf**.

Mae adar ysglyfaethus yn hela yma **drwy'r flwyddyn** gan gynnwys y boda tinwyn sy'n ehedeg yn isel dros y grug; yn uchel yn yr awyr mae'r gwalch glas, cudyll bach a gwalch Marthin yn hofran yn barod aros i ddisgyn ar eu hysglyfaeth.

Mae gwiberod yn byw ar y rhostir hefyd ac efallai byddwch yn ddigon ffodus i weld un yn gorwedd yn yr haul mewn lle agored. Cofiwch eu bod yn wenwynig ond, yn arferol, nid ydynt yn ymosod oni bai eu bod yn cael eu bygwth.

Gors Maen Llwyd offers great opportunities to see some magnificent and rare wildlife throughout the year.

Brown hares can be seen 'boxing' in **early March**.

Listen out for black grouse 'lekking' at dawn from the **end of March until early June**.

Mountain pansies grow on the tumulus near Afon Fechan and bright yellow bog asphodel, insect catching sundews and cottongrass flourish in the wet boggy areas.

Visit the bird hide near the Eastern car park in **Spring and Autumn** to see migrant wading birds and waterfowl feeding on the edge of the lake.

Moorland birds like skylark, stonechat, wheatear, whinchat and meadow pipit all nest here. Sand martin nest in the stony cliffs along the edge of the reservoir, and feed over the lake during **Spring and Summer**.

Birds of prey hunt here **all year round**, including hen harrier gliding low over the heather while, high above, sparrowhawk, merlin and goshawk swoop down on their unsuspecting prey.

Adder inhabit the heathland and you may be lucky enough to see one basking in an open area. Remember, they are venomous, but should not attack unless threatened.




Boda tinwyn
Hen harrier

Plu'r Gweunydd
Cottongrass



Llafn y Bladur
Bog Asphodel

Gwiberod
Adder



- | | | |
|------------------------|-----------------------|------------------------|
| 1. Cors Goch | 12. Rhiwledyn | 23. Gors Maen Llwyd |
| 2. Cemlyn | 13. Caeau Tan y Bwlch | 24. Y Graig |
| 3. Porth Diana | 14. Morfa Bychan | 25. Coed Cilgroesllwyd |
| 4. Mariandrys | 15. Traeth Glaslyn | 26. Coed Trellyniau |
| 5. Coed Porthamel | 16. Coed Crafnant | 27. Big Pool Wood |
| 6. Caeau Pen y Clip | 17. Abercorris | 28. Pisgah Quarry |
| 7. Spinnies, Aberogwen | 18. Cors y Sarnau | 29. 3-Cornered Quarry |
| 8. Nantporth | 19. Y Ddôl Uchaf | 30. Marford Quarry |
| 9. Gogarth | 20. Aberduna | 31. Maes Hiraddug |
| 10. Bryn Pydew | 21. Coed y Felin | 32. Gwaith Powdwr |
| 11. Cors Bodgynydd | 22. Blaen y Weirglodd | |

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn un o blith 47 o Ymddiriedolaethau Natur ledled y DG ac yn un o blith y 6 Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig, yn dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion.

Os hoffech helpu i gefnogi cadwraeth bywyd gwyllt drwy ddod yn aelod neu'n wirfoddolwr, neu os hoffech wybodaeth am warchodfeydd natur lleol, cysylltwch â:

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
376 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd LL57 1YE
Ffôn: 01248 351541 E-bost: nwwt@wildlifetrustswales.org
Elusen Corfforestedig: 230772 Cwmni Cyfyngedig: 773995

www.northwaleswildlifetrust.org.uk

The North Wales Wildlife Trust is one of 47 Wildlife Trusts across the UK and one of 6 Welsh Wildlife Trusts.

We are a registered charity, dependent on the support of our members and donations.

If you would like to help support wildlife conservation by becoming a member or volunteer or would like more information about this and other local nature reserves, please contact us.

North Wales Wildlife Trust
376 High Street, Bangor, Gwynedd LL57 1YE
Phone: 01248 351541 Email: nwwt@wildlifetrustswales.org
Reg. Charity No: 230772 Reg. Company No: 773995

